

# Ymgynghoriad ar ffurf y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn y dyfodol

## Cynnwys

Ymgynghoriad ar ffurf y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn y dyfodol .....	1
<b>1. Cyflwyniad.....</b>	<b>1</b>
Diben yr ymgynghoriad hwn .....	1
Ein rôl a'r rhaglen Cofrestrau Achrededig .....	1
Yr ymgynghoriad hwn a'n hadolygiad strategol o'r rhaglen.....	2
<b>2. Nodi'r problem .....</b>	<b>3</b>
Egwyddorion dylunio gwreiddiol.....	3
Trosolwg o'r broses gyfredol.....	4
Deall y problem rydym yn ceisio ei datrys.....	5
<b>3. Ein gweledigaeth i'r dyfodol .....</b>	<b>7</b>
<b>4. Cynigion ar gyfer newid a chwestiynau'r ymgynghoriad.....</b>	<b>9</b>
Dull cyfredinol o fynd ati.....	9
Cynigion ar gyfer newid yn 2021/22.....	9
Cynigion i'r dyfodol.....	14
Diogelu ac amddiffyn y cyhoedd.....	16
Asesiad o effaith y cynigion .....	17
<b>5. Crynodeb o gwestiynau a sut i ymateb.....</b>	<b>18</b>
Crynodeb o'r cwestiynau .....	18
Sut i ymateb.....	19
<b>6. Cyfrinachedd gwybodaeth.....</b>	<b>19</b>
<b>7. Ein proses ymgynghori ac adborth.....</b>	<b>20</b>

# 1. Cyflwyniad

## Diben yr ymgynghoriad hwn

- 1.1 Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn ceisio barnau ar gynigion yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar ffurf y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn y dyfodol, sy'n darparu sicrwydd ar gyfer rolau mewn iechyd a gofal cymdeithasol nad oes angen eu rheoleiddio o fewn y Deyrnas Unedig. Mae'n gofyn a yw'r rhaglen yn dal yn fecanwaith rheoleiddiol priodol ar gyfer y galwedigaethau a gynhwysir, ac os felly, sut mae modd gwella ar hyn. Mae hefyd yn gofyn am farnau ar sut i sicrhau bod y rhaglen yn hunangyllido yn 2021/22, o ystyried na all yr Awdurdod barhau i gynnig cymhorthdal i'r rhaglen.
- 1.2 Gallwch ymateb i'r papur ymgynghori hwn trwy gwblhau'r ddogfen Word sydd ar gael yma a'i chyflwyno trwy e-bost at:  
[ARconsultation@professionalstandards.org.uk](mailto:ARconsultation@professionalstandards.org.uk)  
Dychwelwch eich ymateb atom erbyn **28 Chwefror 2021**.

## Ein rôl a'r rhaglen Cofrestrau Achrededig

### *Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol*

- 1.3 Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn helpu amddiffyn y cyhoedd trwy ein gwaith gyda sefydliadau sy'n cofrestru a rheoleiddio pobl sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol.
- 1.4 Rydym yn gorff annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Sefydliwr ein rôl a dyletswyddau yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2002 (fel y'i diwygiwyd). Mae tri phrif faes i'n gwaith:
  - Rydym yn goruchwyllo gwaith y deg corff statudol sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn y Deyrnas Unedig
  - Rydym yn achredu'r cofrestrau a gedwir gan gyrff cofrestru anstatudol gweithwyr iechyd a gofal
  - Ein nod yw gwella rheoleiddio trwy ddarparu cyngor i lywodraeth y Deyrnas Unedig ac eraill, cyflawni/comisiynu ymchwil a hyrwyddo egwyddorion rheoleiddio cyffyrddiad cywir.

### *Y rhaglen Cofrestrau Achrededig*

- 1.5 Yn 2011, sefydlodd Llywodraeth y Glymblaid ei strategaeth ar gyfer diwygio'r system i reoleiddio gweithwyr gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig a gweithwyr cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn Lloegr trwy ei Bapur Gorchymyn *Enabling Excellence*<sup>1</sup>.
- 1.6 Sefydla *Enabling Excellence* y rhesymeg dros system o gofrestru gwirfoddol sicr i'w ddatblygu ar gyfer gweithwyr proffesiynol a grwpiau galwedigaethol nad ydynt ar hyn o bryd yn destun rheoleiddio proffesiynol statudol. Rhagwelwyd hyn fel modd cymesur o sicrhau bod cofrestrau gwirfoddol yn gweithredu'n effeithiol ac i

---

<sup>1</sup> <https://www.gov.uk/government/publications/enabling-excellence-autonomy-and-accountability-for-health-and-social-care-staff>

safonau uchel, cyffredin. Fe'i bwriadwyd i ddarparu sicrwydd i gyflogwyr a'r cyhoedd.

- 1.7 I greu'r system newydd hon, yn 2012 derbyniodd yr Awdurdod bwerau a dyletswyddau newydd i achredu cofrestrau gwirfoddol. Sefydla'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol<sup>2</sup> mai ein swyddogaethau dan y ddeddfwriaeth hon yw:
- 1) i hyrwyddo buddiannau defnyddwyr gofal iechyd, defnyddwyr gofal cymdeithasol yn Lloegr, defnyddwyr gwasanaethau gwaith cymdeithasol yn Lloegr ac aelodau o'r cyhoedd mewn perthynas â pherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol,
  - 2) i hyrwyddo arfer gorau o ran perfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol, ac
  - 3) i ffurfio egwyddorion llywodraethu da ym mherfformiad swyddogaethau cofrestru gwirfoddol ac i annof personau sy'n cynnal neu weithredu cofrestrau gwirfoddol achrededig i gydymffurfio â'r egwyddorion hynny.
- 1.8 Sefydla'r Ddeddf yn Adran 25G er mwyn achredu cofrestr wirfoddol, gall yr Awdurdod ei asesu yn erbyn meini prawf y mae'n eu gosod a chyhoeddi. Mae cofrestr wirfoddol dan y diffiniad hwn yn gofrestr o'r bobl sy'n gweithio mewn rolau gofal iechyd yn y Deyrnas Unedig, a gofal cymdeithasol yn Lloegr, nad oes yn rhaid iddynt gael eu rheoleiddio er mwyn gweithio.
- 1.9 Wedi ei gyflwyno, cytunodd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC) i ddarparu cyllid tra bod y rhaglen yn cael ei sefydlu, ar yr amod ei fod yn cyflawni statws hunangyllidol erbyn Ebrill 2021. Ar gyfer 2020/21, rydym wedi derbyn oddeutu £162,000 gan DHSC, sy'n cyfateb i tua 30% o'n rhagolygon incwm cyffredinol. Wedi incwm ffioedd sy'n cyfateb i tua 50% o'n hincwm ar hyn o bryd, mae hyn yn gadael diffyg o tua 20% o £90,000 ar gyfer 2020/21. Mae cronfeydd yr Awdurdod yn gyfyngedig ac ni all barhau i ddibynnu ar gymhorthdal DHSC nac i ddarparu cymhorthdal i'r rhaglen o'i adnoddau ei hun. Felly mae'n allweddol bod y rhaglen yn cyflawni dichonoldeb ariannol yn ystod blwyddyn ariannol 2021/22 a thu hwnt er mwyn i'r Awdurdod allu parhau i'w redeg.
- 1.10 Heddiw, mae'r rhaglen yn cwmpasu 26 o gofrestrau a dros 90,000 o ymarferwyr. Mae hyn yn cynnwys oddeutu 60 math gwahanol o alwedigaeth, yn cynnwys cynghorwyr, seicotherapyddion gwyddonwyr iechyd, ymarferwyr iechyd cyhoeddus, therapyddion cyflenwol a homeopathiaid. Mae ymarferwyr yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau yn cynnwys ymarfer annibynnol, y GIG, addysg a sefydliad gwirfoddol.

### Yr ymgynghoriad hwn a'n hadolygiad strategol o'r rhaglen

- 1.11 Ym Mehefin 2020, cyhoeddodd<sup>3</sup> y Cylch Gorchwyl ar gyfer adolygiad strategol o'r rhaglen Cofrestrau Achrededig:
- 1) I ystyried i ba raddau mae'r rhaglen wedi cyflawni'r nod a osodwyd ar ei chyfer, a sefydlwyd yn *Enabling Excellence* a'r Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012, ac os nad, pam ddim.
  - 2) I nodi dewisiadau ariannu er mwyn cyflawni cynaliadwyedd ariannol.

<sup>2</sup> <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2012/7/contents/enacted>

<sup>3</sup> <https://www.professionalstandards.org.uk/news-and-blog/latest-news/detail/2020/06/08/the-authority-announces-a-strategic-review-of-the-accredited-registers-programme>

- 3) I ystyried cwmpas y rhaglen ac os yw meini prawf yr Awdurdod ar gyfer cynnwys neu eithrio galwedigaethau yn gadarn.
- 4) I nodi sut y gallai'r rhaglen Cofrestrau Achrededig gyflawni'r gafael mae angen fel bod mwy yn elwa o'r sicrwydd mae'n darparu.
- 5) I wneud argymhellion ar gyfer ffurf y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn y dyfodol.

1.12 Dyma'r tro cyntaf ers cyflwyno'r rhaglen yn 2012 i ni gyflawni adolygiad trylwyr o'i effeithiolrwydd. Nid yw'r rhaglen wedi cyflawni'r lefelau o gydnabyddiaeth a defnydd y rhagwelwyd gennym yn wreiddiol. Credwn ei bod yn amserol i ystyried os yw'n ffordd briodol o oruchwylio'r galwedigaethau o fewn ei gwmpas, ac os felly, sut mae modd gwella ar hyn.

1.13 Mae yna newidiadau arwyddocaol wedi bod hefyd yn yr amgylchedd iechyd a gofal cymdeithasol ehangach ers cyflwyno'r rhaglen. Mae'r rhain yn cynrychioli cyfle i'r rhaglen wneud mwy o gyfraniad o fewn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach – ond dim ond os oes angen sicrwydd gwirfoddol a bod y Llywodraeth, y GIG, gofal cymdeithasol, y sector annibynnol a defnyddwyr gwasanaeth yn cefnogi hyn. Mae hyn yn arbennig o daer o ystyried bod yn rhai i'r rhaglen hunangyllido ym mlwyddyn ariannol 2021/22.

1.14 Mae'r ymgynghoriad hwn yn profi egwyddorion dylunio gwreiddiol y rhaglen ac yn sefydlu cynigion ar gyfer ailgynllunio sylfaenol er mwyn bodloni anghenion cyflogwyr, cleifion a'r cyhoedd yn well. Bydd 'llwyddiant' yn golygu bod achrediad yn dod yn ofyniad arferol ar gyfer cyflogwyr ac yn fwy o ysgogiad o ran dewisiadau cleifion a'r cyhoedd. Bydd hefyd yn gofyn i ni weithredu model ariannu llwyddiannus sy'n galluogi'r rhaglen i dalu ei gostau gweithredu, ac i gael cyllid allanol i ddatblygu model newydd.

1.15 Os cyflawnir hyn, yna bydd y rhaglen yn gallu cefnogi gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth, trwy hyrwyddo ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn rheoleiddio'r cofrestrau y mae'n eu hachredu. Bydd hyn yn ei dro yn ei alluogi i wneud mwy o gyfraniad i'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Bydd yn gwneud hyn trwy gefnogi gwell integreiddiad o rai o'r galwedigaethau mae eisoes yn eu cwmpasu, ac y mae Covid-19 wedi gwaethygu'r angen amdano, megis o fewn iechyd meddwl. Bydd hefyd yn cefnogi datblygiad gweithluoedd newydd ac sy'n ehangu ble mae yna angen wedi ei nodi.

1.16 Gellir gweld gwybodaeth am y rhaglen Cofrestrau Achrededig trwy ein gwefan<sup>4</sup>. Gellir dod o hyd i wybodaeth am ein Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig, proses ymgeisio ac adnewyddiadau blynyddol ar ein tudalen Adnoddau<sup>5</sup>.

## 2. Nodi'r broblem

Mae'r adran hon yn sefydlu'r problemau a nodwyd gennym gyda'r drefn gyfredol o'n hymchwil ein hunain ac adborth gan randdeiliaid yn ystod cam gychwynnol ein hadolygiad strategol.

<sup>4</sup> <https://www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/accruited-registers>

<sup>5</sup> <https://www.professionalstandards.org.uk/what-we-do/accruited-registers/resources>

## Egwyddorion dylunio gwreiddiol

2.1 Pan gyflwynwyd y rhaglen yn 2012, dyma oedd y system gyntaf o drosolwg annibynnol ar gyfer nifer o'r galwedigaethau o fewn ei gwmpas. Mae'r egwyddorion dylunio sy'n ategu'r dull cyfredol yn adlewyrchu hyn, ac yn datgan y dylai'r rhaglen:

- 1) Sicrhau y byddai unrhyw gyfyngiadau a ddatblygir trwy greu'r Safonau neu weithrediad y rhaglen, yn adlewyrchu'r risgiau posibl o niwed i'r cyhoedd.
- 2) Peidio cyfyngu ar y farchnad yn annheg neu'n ddiangen trwy greu monopoliâu. Byddai'n agored i unrhyw gofrestr cymwys, yn cynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r un alwedigaeth.
- 3) Byddai'n fforddiadwy i ymgeiswyr, heb brisio cofrestrau bach allan o'r farchnad gan ei wneud yn agored i gofrestrau sy'n clystyru dan sefydliadau mantell.
- 4) Ni ddylai osod y gofynion addysg a hyfforddiant ar gyfer mynediad i gofrestr.
- 5) Ni fyddai'n barnu ar effeithlonrwydd unrhyw therapi nac arfer iechyd neu ofal.

2.2 Er ein bod yn ymroddedig i'r cyntaf o'r egwyddorion dylunio hyn, credwn fod newidiadau i'r modd mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cael ei ddarparu, a'n dysgu ein hunain o wyth mlynedd gyntaf y rhaglen, yn golygu y dylem ystyried ailgynllunio sylfaenol o bob agwedd arall.

## Trosolwg o'r broses gyfredol

2.3 I fod yn gymwys ar gyfer cofrestrriad, rhaid i sefydliadau fodloni Safon Un ein Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig<sup>6</sup> ('y Safonau'):

2.4 Safon 1: mae'r sefydliad yn cadw cofrestr wirfoddol o bobl mewn galwedigaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol.

2.5 Bydd yr Awdurdod yn pennu os yw galwedigaeth yn un 'gofal iechyd' wedi ystyried y diffiniad o ofal iechyd a sefydlwyd yn y Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002, adran 25E (8):

2.6 'Mae 'gofal iechyd' yn cynnwys: pob ffurf ar ofal iechyd ar gyfer unigolion, p'un a yw'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol; a thriniaethau sy'n debyg i fathau o ofal meddygol neu lawfeddygol ond nad ydynt wedi eu darparu yng nghydestun cyflwr meddygol.'

2.7 Hyd yma nid oes gennym unrhyw gofrestrau o weithwyr gofal cymdeithasol heb eu rheoleiddio yn Lloegr. Fodd bynnag, byddai'r meini prawf diwygiedig a sefydlir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon yn gofyn i'r rôl gael eu defnyddio neu'n cael ei chyflwyno yn y sector gofal cymdeithasol. Galli hyn gynnwys rolau newydd sy'n pontio iechyd a gofal cymdeithasol, fel presgripsiynu cymdeithasol.

2.8 Gall sefydliadau sy'n bodloni'r diffiniadau hyn wneud cais am achrediad. Mae'n ofynnol iddynt gyflwyno tystiolaeth i arddangos sut maent yn bodloni pob un o'r Safonau. Mae'r Safonau wedi eu gosod fel bar ar gyfer ymarfer da, ac mae'n ofynnol i sefydliadau fodloni pob un er mwyn cael ei achredu. Mae Panel, sy'n cynnwys uwch aelodau o staff yr Awdurdod ac yn achlysurol aelodau'r Bwrdd, yn

---

<sup>6</sup> [https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accruited-registers/standards-for-accruited-registers/standards-for-accruited-registers.pdf?sfvrsn=cc2c7f20\\_4](https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accruited-registers/standards-for-accruited-registers/standards-for-accruited-registers.pdf?sfvrsn=cc2c7f20_4)

asesu'r dystiolaeth hon ac yn gwneud penderfyniad terfynol ar os yw am achredu. Nid yw'r asesiad yn cynnwys unrhyw ystyriaeth ynghylch effeithlonrwydd yr alwedigaeth na thriniaethau a ddarperir gan gofrestryddion.

- 2.9 Unwaith y bydd achrediad wedi ei roi, er mwyn ei gynnal mae angen ei adnewyddu'n flynyddol. Rhaid i Gofrestrau Achrededig ddarparu tystiolaeth eu bod yn dal i fodloni'r Safonau, fel y sefydlwyd yn y Canllaw i'r Broses Adolygu Flynyddol<sup>7</sup>.
- 2.10 Gellir cyhoeddi 'argymhellion' i Gofrestrau Achrededig, ble nodir cyfleodd i wella ymarfer ac i hybu gweithrediad y gofrestr. Cyhoeddir 'amodau' pan na fydd Safon wedi ei bodloni. Mae Amod yn sefydlu'r gofynion sydd angen i'r Gofrestr Achrededig fodloni'r Safonau, o fewn cyfnod amser penodol. Mewn achosion o bryderon difrifol neu barhaus, gallai Panel bennu y dylid atal achrediad cofrestr neu ei diddymu. Os codir pryderon difrifol, ni fyddwn yn aros ar gyfer yr asesiad blynyddol, ond yn hytrach yn cynnal adolygiad yn ystod y flwyddyn.

### Deall y broblem rydym yn ceisio ei datrys

- 2.11 Mae'r system reoleiddio ehangach yn gymhleth. Mae'r Awdurdod wedi sefydlu'r rhesymeg ar gyfer system fwy cydlynol o reoleiddio, trwy ein papur yn 2016 Regulation Rethought<sup>8</sup>. Y broblem ar ei fwyaf eang yw bod y system gyfredol o reolyddion a chofrestrau lluosog yn anodd i gleifion a'r cyhoedd lywio, ac nad yw trosolwg yn gymesur i risg ar bob adeg.
- 2.12 Cwestiwn allweddol i'w ateb yw os gall sicrwydd gwirfoddol fod yn effeithiol o ran diogelu cleifion a'r cyhoedd o fewn y system gyfredol.
- 2.13 Ers ei gyflwyno, mae'r rhaglen wedi llwyddo i godi safonau'r Cofrestrau Achrededig cyfredol, wrth feithrin cydweithredu rhwng cofrestrau a gwella prosesau cwynion ar gyfer y cyhoedd. Sefydlir y gwelliannau sydd wedi eu sicrhau gan Gofrestrau Achrededig mewn ymateb i gyhoeddi Argymhellion ac Amodau yn ein hadroddiadau o'u hadnewyddiadau blynyddol.
- 2.14 Fodd bynnag, dengys ein hadolygiad o gynlluniau sicrwydd gwirfoddol mewn sectorau eraill bod yn rhaid cael lefelau uchel o gwmpas, gofynion cadarn, lefelau uchel o ymwybyddiaeth a chydabyddiaeth a defnydd gan y systemau ehangach maent yn gweithredu ynddynt er mwyn bod yn effeithiol.
- 2.15 Dengys ein hymchwil ein hunain o ddehongliad cleifion a'r cyhoedd, a gyflawnwyd ym Mawrth eleni, bod yna ddiffyg ymwybyddiaeth o'r rhaglen (ac o reoleiddio'n gyffredinol); ac mai argymhellion gan deulu a ffrindiau, yn hytrach nag achrediad, yw'r prif ysgogiad ar gyfer eu dewisiadau. Yn ogystal, mae cwmpas y rhaglen o 90,000 o ymarferwyr yn gyfran fechan iawn o'r ddwy filiwn o rolau heb eu rheoleiddio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Golyga hyn tra bydd cleifion a defnyddwyr gwasanaeth sy'n dewis ymarferwyr o Gofrestrau Achrededig wedi elwa o'r gwelliannau ers cyflwyno'r rhaglen, nid yw'r buddiannau hyn yn ymestyn yn ddigon pell ac maent yn guddiedig yn bennaf.
- 2.16 Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai cyflogwyr yn gwneud dewis gwybodus i ddefnyddio ymarferwyr ar Gofrestr Achrededig, oherwydd bod yr ansawdd wedi ei

<sup>7</sup> [https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accredited-registers/guidance-documents/annual-review-process-guide.pdf?sfvrsn=e5c7220\\_10](https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accredited-registers/guidance-documents/annual-review-process-guide.pdf?sfvrsn=e5c7220_10)

<sup>8</sup> [https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/regulation-rethoughtd6c718f761926971a151ff000072e7a6.pdf?sfvrsn=48557120\\_0](https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/publications/regulation-rethoughtd6c718f761926971a151ff000072e7a6.pdf?sfvrsn=48557120_0)



sicrhau gan yr Awdurdod. Byddai hyn yn fuddiol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth hyd yn oed os nad oeddynt yn ymwybodol o'r rhaglen ei hun. Fodd bynnag, mae'r nifer o gyflogwyr sy'n ei fabwysiadu wedi bod yn isel. Y prif resymau rydym wedi nodi hyd yma ar gyfer hyn yw diffyg cysondeb ar draws safonau addysg a hyfforddiant, ac achredu ddim yn mynd yn ddigon pell i gynnig sicrwydd, yn arbennig mewn galwedigaethau a ystyrir i fod yn risg uchel.

- 2.17 Er bod cofrestrau achrededig yn sicrhau nad ydynt yn derbyn unrhyw ymarferydd ar y gofrestr sydd wedi ei dynnu o Gofrestr Achrededig arall, neu gan unrhyw rai o'r rheolyddion statudol a oruchwylir gan yr Awdurdod, ar hyn o bryd ni all natur wirfoddol y rhaglen atal unigolyn rhag ymarfer yn annibynnol mewn galwedigaeth nad yw wedi ei rheoleiddio gan y gyfraith. Gall hyn danseilio hyder gan gyflogwyr a gall fod yn brin o beth fyddai cleifion a'r cyhoedd yn ei ddisgwyl gan system o sicrwydd.
- 2.18 Mae'r diffiniad o iechyd a gofal yn eang ac felly mae'r galwedigaethau a allai fod o fewn cwmpas y rhaglen yn amrywiol iawn. Maent yn cynnwys ymarferwyr yn cyflawni triniaethau ymwithiol fel ffisioleg glinigol neu driniaethau cosmetig anfeddygol; rhai sy'n gweithio yn y therapïau seicolegol fel cynghorwyr, seicotherapyddion a therapyddion chwarae; therapyddion ymarferol fel y rhai sy'n gyfrifol am iechyd traed a thylino chwaraeon; gwyddonwyr iechyd a therapyddion cyflenwol o amrywiol fathau yn cynnwys homeopathiaid. Er nad ydym wedi derbyn ceisiadau gan gofrestrau rolau gofal cymdeithasol heb eu rheoleiddio eto, mae'r rhai o fewn Lloegr yn gymwys dan y ddeddfwriaeth gyfredol.
- 2.19 Hyd yma mae'r Awdurdod wedi bod o'r farn y byddai'n well cynnwys amrediad eang o alwedigaethau a ddefnyddir gan gleifion a defnyddwyr gwasanaeth. Credir hefyd nad yw wedi ei ddarparu i asesu o yw therapïau a ymarferir mewn galwedigaethau yn effeithiol. Mae rhai yn credu na ddylem gynnwys galwedigaethau ble nad oes tystiolaeth gadarn eu bod yn gweithio, hyd yn oed os yw'r cyhoedd yn dewis eu defnyddio. Maent yn pryderu bod cael achrediad gan yr Awdurdod yn rhoi hygredd i therapïau nad ydynt yn seiliedig ar dystiolaeth. Dynododd ein hymchwil yn gynharach eleni farnau amrywiol ymysg y cyhoedd yn y maes hwn.
- 2.20 Mae nifer o Gofrestrau Achrededig wedi rhoi gwybod i ni er eu bod yn gwerthfawrogi achrediad, gall y broses ei hun fod yn drafferthus. Gall y broses ymgeisio fod yn faith, ac nid yw'r gwaith papur sydd angen yn y cylch o adolygiadau blynyddol yn gymesur i'r risg ar bob adeg. Mae hyn yn cyfyngu ar ein gallu i fuddsoddi mewn gweithgareddau i god ymwybyddiaeth, archwilio ac i gefnogi cofrestrau newydd i fodloni'r Safonau ar gyfer achrediad. Mae nifer yn rhannu pryderon cyflogwyr y gallai ymarferwyr anaddas barhau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd er nad ydynt bellach ar Gofrestr Achrededig, ac na ellir eu hatal rhag gwneud hynny o fewn cylch gwaith deddfwriaethol cyfredol y rhaglen.
- 2.21 Mae'r adran isod yn sefydlu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol sy'n ceisio mynd i'r afael â'r problemau hyn a sicrhau system effeithiol o sicrwydd gwirfoddol. Fodd bynnag, oni bai bod yna awydd cyfunol i ddatrys y problemau hyn a pharodrwydd ar draws y system i gydweithio, ni fydd yr Awdurdod yn gallu darparu'r newidiadau sy'n ofynnol i gyflawni hyn.


### 3. Ein gweledigaeth i'r dyfodol

3.1 Rydym eisiau gwneud y system o sicrwydd ar gyfer rolau heb eu rheoleiddio yn haws i'w defnyddio; gan ysgogi dewisiadau ar gyfer cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a chyflogwyr; ac i fod yn gymesur i risg y galwedigaethau mae'n cwmpasu.

3.2 Credwn er mwyn cyflawni'r nodau a sefydlwyd yn wreiddiol, dylid defnyddio'r rhaglen i:

- a. Gefnogi cyflawniad cynlluniau gweithlu gofal iechyd a gofal cymdeithasol y GIG yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at ofal wedi personoli ar gyfer cleifion a'r adferiad Covid-19 yn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r pandemig wedi amlygu'r angen am integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn well, ac o werth gofal iechyd meddwl a ddarperir gan rolau heb eu rheoleiddio.
- b. Fod yn ofyniad i gyflogwyr sy'n defnyddio ymarferwyr gofal iechyd mewn rolau heb eu rheoleiddio yn y Deyrnas Unedig a rolau heb eu rheoleiddio mewn gofal cymdeithasol yn Lloegr
- c. Cefnogi arloesi ac i allu ymateb yn gyflym i newid. Mae hyn yn fantais sydd gan sicrwydd gwirfoddol uwchlaw cofrestru statudol.


3.3 Yn allweddol i lwyddiant hyn fydd pennu'r lefel briodol o drosolwg ar gyfer galwedigaethau mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r diagram isod yn dangos sut mae'r rhaglen gyfredol yn eistedd o fewn y system reoleiddio ehangach:



<b>Statutory regulation:</b>	<b>Rheoleiddio statudol:</b>
10 regulators	10 rheoleiddiwr
1.6m roles	1.6m rôl
<b>Non-statutory ('unregulated'):</b>	<b>Anstatudol ('heb reoleiddio'):</b>
26 Accredited Registers covering 90K out of 2m+ roles	26 Cofrestr Achrededig yn cwmpasu 90K o 2m+ rôl
Higher risk	Risg uwch
Lower risk	Risg is



3.4 Byddai ein cynigion ar gyfer y dyfodol yn cyflwyno system o haenau yn ôl risg, a mecanweithiau i asesu'r lefel o risg i'r cyhoedd yn rheolaidd, fel y sefydlir yn y diagram isod:



<b>Statutory regulation:</b>	<b>Rheoleiddio statudol:</b>
10 regulators	10 rheoleiddiwr
1.6m roles	1.6m rôl
<b>Non-statutory ('unregulated'):</b>	<b>Anstatudol ('heb reoleiddio'):</b>
Tiered accreditation of registers 2m+ roles	Achrediad haenog o gofrestrau 2m+ rôl
Higher risk	Risg uwch
Intermediate risk: licencing (tbc)	Risg ganolig: trwyddedu (i'w gadarnhau)
Lower risk	Risg is
More frequent assessment of the risk of occupations, taking into account environmental changes	Aseiad amlach o risg galwedigaethau, gan ystyried newidiadau amgylcheddol

3.5 Hyd yma mae ein hadolygiad o ymchwil ac adborth gan randdeiliaid wedi nodi'r nodweddion allweddol ar gyfer system ddiwygiedig o sicrwydd gwirfoddol a allai gyflawni'r uchod:

- Y gallu i ddarparu trosolwg ar gyfer y rolau newydd ac sy'n ehangu nad ydynt wedi eu rheoleiddio a nodwyd fel blaenoriaethau gweithlu trwy osod isafswm gofynion ar gyfer cofrestrau newydd yn ystod cylch cyntaf yr achrediad.
- Mwy o gysondeb o ran safonau ar gyfer galwedigaethau unigol, yn cynnwys ar gyfer addysg a hyfforddiant, fel bod yna lai o amrywiaeth mewn cymhwyster a chanlyniadau disgyblaethol.
- Mwy o sicrwydd ar gyfer y galwedigaethau 'risg ganolig' fel y gallu i eithrio ymarferwyr anaddas, er enghraifft trwy drwyddedu.

3.6 I lwyddo, mae'r rhaglen angen ennill hyder a chefnogaeth weladwy'r Llywodraeth, y GIG, y system gofal cymdeithasol, cyflogwyr, Cofrestrau Achrededig a'u cofrestryddion, a chleifion a'r cyhoedd. Mae'n galw am waith paratoi gofalus. Oherwydd hyn, rydym yn cynnig dull cam wrth gam i newid.

- 3.7 Yn 2021/22, bwriadwn adolygu'r broses achredu i'w wneud yn fwy cymesur i risg. Bydd hyn yn cynnwys cylch asesu hirach ar gyfer cofrestrau sy'n bodloni ein Safonau'n gyson. Rydym hefyd yn cynnig cyflwyno meini prawf achredu newydd, i roi mwy o reolaeth i ni dros pa sefydliadau a galwedigaethau sy'n gymwys i ymgeisio. Byddwn yn cyflwyno model ffioedd newydd, i gyflawni cynladwyedd ariannol.
- 3.8 O 2022, rydym yn cynnig gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i nodi safonau a fframweithiau cyffredin ar gyfer galwedigaethau unigol. Ble mae yna eisoes fframweithiau cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant ar waith, megis ar gyfer seicotherapi ac iechyd traed, byddwn yn cefnogi hyn ac yn ceisio annog dyblygiad ar draws galwedigaethau eraill. Bydd hyn hefyd yn gosod y sylfaeni ar gyfer cofrestrau galwedigaethau i ffurfio cyrff 'mantell' posibl a fyddai'n caniatáu ar gyfer system symlach i gleifion a'r cyflogwyr a mwy o gysondeb o ran safonau ar gyfer mynediad, delio â chwynion a chanlyniadau disgyblaethol.
- 3.9 Mae hyn yn golygu yn y dyfodol, y gallem fod yn achredu llai o sefydliadau – ond byddai'r sefydliadau hynny'n gweithio'n agos gyda'r cyrff proffesiynol yn y sector, a rhagwelwn y byddai eu haelodau fwy na heb yn gymwys ar gyfer cofrestru gyda'r corff mantell. Mae enghreifftiau o sefydliadau eisoes yn gweithio fel hyn yn cynnwys yr Academi Gwyddor Gofal Iechyd a'r Cyngor Gofal Iechyd Cyflenwol a Naturiol.
- 3.10 Yn y tymor hir, gallai hyn arwain y ffordd ar gyfer cofrestr unigol yn y dyfodol, fel y rhagwelwyd yn *Regulation Rethought* pe byddai'r Llywodraeth yn ystyried hynny i fod yn ddymunol. Er ei fod wedi ei ragweld yn wreiddiol fel cofrestr unigol ar gyfer pob rôl iechyd a gofal cymdeithasol, gallai'r corff hwn ddarparu trosolwg ar gyfer y galwedigaethau uniongyrchol yn unig, neu ar gyfer pob cofrestr anstatudol. Gellid cyflwyno hyn gyda, neu heb, system o drwyddedu. Byddai trwyddedu yn cynnwys y corff yn gallu darparu hawlenni i ymarfer. Fodd bynnag, yn unol â'n dull *Cyffyrddiad cywir*, pe byddem yn canfod fod cyflwyno mesurau eraill fel fframweithiau cyffredin ar gyfer galwedigaethau yn ddigon i ddelio â'r risgiau posibl i'r cyhoedd, yna ni fyddem yn cyflwyno rheoleiddio pellach. Rhan allweddol o'r weledigaeth ar gyfer y dyfodol yw'r gallu i fod yn ymatebol i amgylcheddau sy'n newid. Gyfochr â'r newidiadau hyn i Gofrestrau Achrededig, os yw'r Llywodraeth a rhanddeiliaid eraill yn cefnogi hynny, gallem ddatblygu ein mecanweithiau ein hunain ar gyfer asesu risg galwedigaethau.
- 3.11 Rydym yn cydnabod bod y weledigaeth hon yn mynd tu hwn i'r hyn a sefydlwyd yn *Enabling Excellence* ac y gallai fod angen newid deddfwriaethol i'w gyflawni. Bydd sefydlu'r camau clir ar gyfer newid yn sicrhau er bod ein nodau cyffredinol wedi eu gwreiddio yn ein dull *Cyffyrddiad cywir*, nad ydym yn aros i wneud newidiadau a fydd yn diogelu cleifion yn well yn 2021/22.

## 4. Cynigion ar gyfer newid a chwestiynau'r ymgynghoriad

### Dull cyffredinol o fynd ati

- 4.1 Mae ymchwil a adolygwyd gennym hyd yma wedi dangos y gall systemau gwirfoddol o sicrwydd fod yn effeithiol pan fydd ganddynt ofynion clir, eu bod wedi

eu cydnabod a defnyddio gan y system ehangach maent yn gweithredu ynddi a bod ganddynt lefelau da o ymwybyddiaeth a chwmpas.

- 4.2 Er nad yw'r rhaglen Cofrestrau Achrededig wedi cyflawni hyn eto, mae gwelliannau i'r holl gofrestrau a achredwyd ers ei gyflwyno yn awgrymu y gall fod yn effeithiol, pe byddem yn delio â'r problemau a nodwyd ac yn sicrhau defnydd a chydabyddiaeth gan gyflogwyr.
- 4.3 Mae'r holl gofrestrau sydd wedi eu hachredu hyd yma yn alwedigaethau gofal iechyd. Fodd bynnag, mae ein deddfwriaeth yn caniatáu i ni gofrestru rolau gofal cymdeithasol heb eu rheoleiddio yn Lloegr a chredwn y gallai'r rhaglen hon fod yn ddefnyddiol.
- 4.4 Mae ein hymchwil ein hunain a gyflawnwyd ym Mawrth 2020 i ddehongliadau o'r rhaglen gan gleifion a'r cyhoedd yn dynodi bod argymhellion gan deulu a ffrindiau ar hyn o bryd yn ysgogiad allweddol ar gyfer dewis a bod yna lefelau isel iawn o ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, ein nod yw i achredu fod yn fwy o ffactor o ran dewis cleifion yn y dyfodol. Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn i achredu fod yn effeithiol wrth ddiogelu cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn y sector annibynnol, ble mae cyfran arwyddocaol o'r Ymarferwyr Cofrestrau Achrededig cyfredol yn gweithio ar hyn o bryd.

*Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y gallai system o gofrestru gwirfoddol ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn effeithiol o ran diogelu'r cyhoedd?*

## **Cynigion ar gyfer newid yn 2021/22**

### *Meini prawf cymhwyster ac achredu*

- 4.5 Ein dull hyd yma fu i gynnwys amrywiaeth eang o alwedigaethau gofal iechyd yn y rhaglen, ar y sail mai dyma'r ffordd orau i ddiogelu'r cyhoedd sy'n dewis eu defnyddio. Rydym wedi ffocysu ein Safonau a dull asesu ar y pedair swyddogaeth sy'n amddiffyn y cyhoedd: safonau ar gyfer cofrestryddion, cofrestru, addysg a hyfforddiant a delio â chwynion. Hefyd wedi eu cynnwys mae safonau ar lywodraethu, a gwybodaeth i'r cyhoedd.
- 4.6 Mae yna safbwyntiau amrywiol ar y ffordd orau i 'hyrwyddo buddiannau' defnyddwyr gofal iechyd. Mae gan y GIG fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch pa driniaethau ac ymyraethau i'w comisiynu'n rheolaidd. Mae rhai o'r triniaethau mae cleifion yn eu dewis tu allan i'r GIG tu allan i'r fframwaith yma. Oni bai y pennir bod triniaeth yn anghyfreithlon, efallai na fydd system o drosolwg, os nad yw'r sefydliad cofrestru wedi ei achredu gan yr Awdurdod.
- 4.7 Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y risg y gellir dewis rhai triniaeth fel dewis amgen, yn hytrach na chyflenwol, i driniaeth gonfensiynol. Ar gyfer cleifion y mae eu cyflyrau yn galw am oruchwyliaeth feddygol, gallai hyn arwain at niwed. Mewn achosion ble mae'r cyhoedd yn deall achredu i olygu bod yr Awdurdod yn ardystio'r alwedigaeth a'r driniaeth ei hun, gallai hyn gynnig sicrwydd ffug a gwaethygu'r risg yma. Canfu ein hymchwil ym Mawrth eleni ar gyfer y rhai oedd yn bositif ynghylch Cofrestrau Achrededig yn teimlo'n siomedig wedi dysgu nad oedd achrediad yn ystyried effeithlonrwydd triniaethau. Mae hyn yn awgrymu na fydd y dull cyfredol yn mynd ddigon pell i fodloni disgwyliadau cleifion a'r cyhoedd o bosibl.

- 4.8 Gallai achredu galwedigaethau ble ceir cronfa dystiolaeth gydnabyddedig ar gyfer y triniaethau a ddarperir, neu sy'n cael eu defnyddio gan y GIG, eithrio galwedigaethau a ystyrir er hynny i fod yn fuddiol i gleifion a defnyddwyr gofal cymdeithasol. Gallai eithrio rolau newydd nad ydynt wedi cael amser i sefydlu cronfa dystiolaeth. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig i'r cyhoedd gael gwybodaeth glir am gyfyngiadau triniaethau. Ein dull cyfredol felly yw gofyn i sefydliadau fod yn glir ynghylch i ba raddau y mae neu nad oes tystiolaeth ynghylch effeithlonrwydd.
- 4.9 Mae hefyd yn bwysig nad yw cynnwys cofrestr neu alwedigaeth yn dwyn anfri ar weddill y rhaglen, yn cynyddu'r niwed posibl i gleifion neu'n niweidio hyder y cyhoedd mewn iechyd a gofal. Gall fod tensiwn rhwng rôl y gofrestr o ran diogelu'r cyhoedd, a gwasanaethu buddiannau proffesiynol, pan fydd cymdeithas broffesiynol yn cadw cofrestr wirfoddol. Efallai y bydd angen i ni wneud asesiad mwy pendant o os yw'r gofrestr yn blaenoriaethu diogelu'r cyhoedd, yn y dyfodol.
- 4.10 Hyd yma, mae'r cofrestrau sydd wedi eu hachredu gennym yn alwedigaethau gofal iechyd. Fodd bynnag, mae ein deddfwriaeth yn caniatáu i ni gofrestru rolau gofal cymdeithasol heb eu rheoleiddio yn Lloegr. Mae hyn yn faes ble rydym yn awyddus i ehangu ein darpariaeth.
- 4.11 I ganiatáu i'w Awdurdod gael mwy o ddisgresiwn dros beth sydd wedi ei gynnwys yng nghwmpas y rhaglen, gallem gyflwyno meini prawf, er enghraifft:
- Defnyddir neu cyflwynir yr alwedigaeth neu rôl yn y GIG neu gorff sector gofal iechyd cyhoeddus neu annibynnol arall
  - Yr alwedigaeth neu rôl yn cael ei defnyddio neu gyflwyno yn y sector gofal cymdeithasol
  - Yr alwedigaeth neu rôl yn cael ei defnyddio ar gyfer gofal wedi personoli gan gleifion gyda chefnogaeth eu darparwr gofal iechyd
  - Yr alwedigaeth neu rôl yn cael ei defnyddio'n annibynnol gan y cyhoedd i gefnogi eu hiechyd a lles
  - Bydd cynnwys yr alwedigaeth neu rôl yn cynnal hyder yn y rhaglen achredu
  - Llywodraeth ac/neu awdurdodau cyhoeddus eraill yn cefnogi ei gynnwys yn y rhaglen.
  - Mae nodau ac amcanion y gofrestr wedi eu ffocysu'n bennaf ar ddiogelu'r cyhoedd.
- 4.12 Byddai'r meini prawf hyn yn helpu'r Awdurdod i asesu manteision yr alwedigaeth neu rôl, yn erbyn y risgiau posibl. Er enghraifft, os canfu ein hystyriaeth gychwynnol o'r gofrestr bod ei bolisiâu ac amcanion yn ffocysu'n bennaf ar fuddiannau proffesiynol uwchlaw diogelu'r cyhoedd, byddem yn gofidio y gallai hyn arwain at bolisiâu a phrosesau nad ydynt yn diogelu cleifion yn ddigonol. Gallai hyn gyflwyno risgiau fel triniaethau yn cael eu cynnig fel dewisiadau amgen i oruchwyliaeth feddygol ar gyfer cyflyrau difrifol.

*Cwestiwn 2: Sut ydych chi'n meddwl dylai'r Awdurdod bennu pa alwedigaethau a ddylid eu cynnwys o fewn y rhaglen? Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei ystyried parthed asesu ceisiadau ar gyfer cofrestrau newydd?*

### *Cymesuredd a risg*

- 4.13 Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu achrediad cofrestr yn flynyddol. Rydym hefyd yn adolygu perfformiad y rheolyddion statudol rydym yn eu goruchwyllo'n flynyddol. Rydym yn cynnig newid i gylch adolygu hirach o dair i bum mlynedd o bosibl.
- 4.14 Credwn y byddai ystyried cylch hirach ar gyfer adnewyddu achredu yn gymesur, ac yn gymharol gyda chynlluniau achredu eraill yr ystyriom yn ystod cam cychwynnol ein hadolygiad strategol. Nid yw cofrestrau fel arfer yn gwneud newidiadau arwyddocaol i'w prosesau yn flynyddol. Fodd bynnag, byddem yn cyflawni gwiriadau cyfnodol o Gofrestrau Achrededig rhwng asesiadau adnewyddu llawn ac yn cynyddu ein gweithgareddau archwilio ble fo angen i sicrhau cydymffurfiaid.
- 4.15 Er bod asesiadau hyd yma wedi ffocysu ar lywodraethu a systemau sydd ar waith i gyflawni swyddogaethau allweddol Cofrestrau Achrededig, cafwyd achosion ble mae wedi dod i'r amlwg nad yw Cofrestrau wedi cymryd camau digon buan i ddelio gyda diffyg cydymffurfiaid eu cofrestryddion. Credwn y byddai mwy o gapasiti i archwilio yn rhoi mwy o sicrwydd i ni.
- 4.16 Yn ogystal, rhaid i ni osod y bar ar gyfer y Safonau ar lefel ymarfer da. Er ein bod yn credu fod hyn yn briodol, rydym yn ystyried cyflwyno 'isafswm gofynion' ar gyfer Cofrestrau Achrededig newydd yn ystod eu cylch asesu cyntaf. Byddai'r rhain yn alinio i'r gyfres gyfredol o Safonau ond yn caniatáu ar gyfer gwneud gwelliannau i'r cylch asesu cyntaf. Pe na fyddai cofrestrau yn bodloni'r safonau uwch wedi'r pwynt hwn, yna byddai'r achrediad yn cael ei ddiddymu. Credwn y byddai hyn yn fwy cymesur ac yn caniatáu i gofrestrau newydd ac sy'n datblygu arddangos gwelliannau ers achredu. Byddem yn cyflwyno ffi ar gyfer asesiadau o flaen llaw ar gyfer cofrestrau newydd sy'n ystyried maint a nifer y galwedigaethau sydd wedi cofrestru a'r nifer o alwedigaethau a gofrestrwyd, i ba raddau rydym angen ystyried tystiolaeth o gymhwyster yn unol â'r meini prawf newydd. Efallai y byddwn hefyd yn codi ffi ar gyfer gweithgareddau archwilio atodol os oes angen o fewn y clych adolygu.

*Cwestiwn 3: Ydych chi'n meddwl y bydd symud o gylch flynyddol i un hirach o adnewyddu achrediad, yn gymesur i'r risg, yn galluogi'r Awdurdod i ddilyn ymagwedd dargedig, cymesur a hyblyg i'r asesiad? Ydych chi'n meddwl bod ein cynigion ar gyfer cofrestrau newydd o ran isafswm gofynion yn rhesymol?*

### *Effeithlonrwydd galwedigaethau*

- 4.17 Cafodd y Safonau ar Gofrestrau Achrededig<sup>9</sup> eu diweddarau ddiwethaf yn 2016. Nid ydym yn cynnig adolygu'r Safonau cyfan, er fel y nodwyd uchod efallai y byddwn yn y dyfodol y byddwn yn ystyried cynnwys mwy o ofynion penodol ar gyfer addysg a hyfforddiant.
- 4.18 Un maes yr ydym yn ystyried newidiadau mwy uniongyrchol iddo yw o ran effeithlonrwydd y therapïau a thriniaethau a gynigir gan y galwedigaethau a gofrestrir. Dywedodd un o'r egwyddorion dylunio gwreiddiol 'Na fyddai'r rhaglen yn dyfarnu ar effeithlonrwydd unrhyw therapi neu ymarfer iechyd neu ofal.' Roedd hyn ar sail y ffaith y dylai cleifion a defnyddwyr gwasanaeth fod yn rhydd i ddewis

<sup>9</sup> [https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accruited-registers/standards-for-accruited-registers/standards-for-accruited-registers.pdf?sfvrsn=cc2c7f20\\_4](https://www.professionalstandards.org.uk/docs/default-source/accruited-registers/standards-for-accruited-registers/standards-for-accruited-registers.pdf?sfvrsn=cc2c7f20_4)



triniaeth maent yn teimlo sy'n fuddiol iddynt, os nad ydynt yn niweidiol nac anghyfreithiol. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd gofal wedi personoli o fewn y GIG, sy'n ceisio grymuso cleifion i wneud penderfyniadau am ru triniaeth, mewn partneriaeth gyda'u darparwr gofal iechyd.

4.19 Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi ei feirniadu am achredu cyrff o driniaethau nad ydynt wedi eu cynnig gan y GIG, a ble nad oes llawer o gronfa dystiolaeth. Mae rhai wedi mynegi gofid y gallai achrediad i'r corff cofrestru gan yr Awdurdod ymhlygu bod y driniaeth yn effeithiol.

4.20 Mae hyn yn golygu bod angen i ni feddwl sut i sicrhau bod achrediad yn rhoi hyder mewn ymarferwyr. Y materion allweddol i ni eu hystyried yw:

- Fod beth mae achrediad yn ei olygu yn glir i'r cyhoedd, ac os yw'n ymhlygu ardystiad o effeithlonrwydd therapi.
- P'un a yw ein rôl ni i ofyn am dystiolaeth o effeithlonrwydd triniaethau

4.21 Ein rôl o ran monitro a gorfodi cydymffurfriad o gofrestryddion fel eu bod yn gweithio o fewn eu cwrpas ymarfer diffiniedig yn unig.

4.22 Y Safonau sy'n berthnasol yw'r materion hyn yw:

- *Safon 6 - Mae'r sefydliad yn arddangos fod yna gronfa wybodaeth ddiffiniedig yn ategu'r galwedigaethau iechyd a gofal cymdeithasol a gwmpasir gan ei gofrestr neu, ar y llaw arall, sut y mae'n mynd ati i ddatblygu un. Mae'r sefydliad yn darparu'r gronfa wybodaeth ddiffiniedig neu ei ddatblygu yn glir i'r cyhoedd.*
- *Safon 8b – Mae'r sefydliad seilio ei safonau cymhwyster ar ei gorff diffiniedig o wybodaeth.*

*Cwestiwn 4 - A yw achrediad wedi ei ddehongli fel rhywbeth sy'n ymhlygu ardystiad o'r galwedigaethau mae'n eu cofrestru? A yw hyn yn creu problemau? Os felly, sut ellir lliniaru hyn ar gyfer y dyfodol?*

### *Cronfa dystiolaeth*

4.23 Byddwn yn ystyried yr adborth o Gwestiwn 4 uchod yn ein hymagwedd i effeithiolrwydd yn y dyfodol. Mae yna dri opsiwn cyffredinol ar gyfer delio â'r materion hyn dan ystyriaeth ar hyn o bryd:

### **Opsiwn 1 – cronfa wybodaeth**

4.24 Dan yr opsiwn yma byddem yn cynnal ein gofyniad cyfredol a sefydlwyd dan Safon 6 ar gyfer cronfa wybodaeth diffiniedig.

4.25 Golyga 'cronfa wybodaeth' gasgliad o wybodaeth sy'n cefnogi dealltwriaeth o beth mae galwedigaeth yn ei wneud, a sut ddylid ei defnyddio. Yn wahanol i 'gronfa dystiolaeth', nid wy'n ceisio ateb cwestiynau diffiniol fel effeithiolrwydd. Yn hytrach, mae'n gorff o wybodaeth y mae Cofrestr Achrededig wedi defnyddio i ddatblygu ei safonau a gofynion ei hun ar gyfer cofrestryddion.

4.26 Gallem hefyd ystyried cryfhau'r gofyniad hwn ymhellach trwy:

- a. Osod terfyn amser i'r Gofrestr Achrededig ddatblygu cronfa wybodaeth ddiffiniedig, neu



- b. Ofyn am gronfa wybodaeth ddiffiniedig, yn hytrach na datblygiad un, i fodloni'r Safon.
- c. Sefydlu gofynion mwy pendant ar gyfer beth sy'n wybodaeth 'cydnabyddedig' fel papurau ymchwil gydag adolygiad cyfoedion.

## Opsiwn 2 – cronfa dystiolaeth

4.27 Byddai'r opsiwn yma'n cynnwys mwy o ofynion i Gofrestrau Achrededig sefydlu'r gronfa dystiolaeth ar gyfer galwedigaethau maent yn eu cofrestru.

4.28 Rydym yn cydnabod bod safbwyntiau ar gronfeydd tystiolaeth yn esblygu, ac nad rôl yr Awdurdod yw pennu pa driniaethau ddylai neu na ddylai gael eu dewis gan gleifion a'r cyhoedd. O fewn yr opsiwn hwn, byddem yn pennu ble ceir tystiolaeth wan iawn yn unig na fyddai'n fuddiol i gleifion a defnyddwyr gwasanaeth i'r corff cofrestru gael ei achredu gan y gallai hyn ymhlygu effeithiolrwydd.

4.29 Enghraifft o'r math o fframwaith tystiolaeth y gallem ddefnyddio, gyda'r cryfaf yn gyntaf:

- Adolygiad systematig neu ddadansoddiad meta o hap-dreialon wedi'i rheoli
- O leiaf un hap-dreial wedi'i reoli
- O leiaf un astudiaeth wedi ei gynllunio a rheoli'n ofalus heb elfen hap
- O leiaf un astudiaeth lled arbrofol wedi ei gynllunio'n ofalus, fel astudiaeth cohort
- Astudiaethau disgrifiadol nad ydynt yn arbrofol wedi eu cynllunio'n dda, fel astudiaethau cymharol, astudiaethau cydberthynas, astudiaethau rheoli achos ac astudiaethau achos
- Adroddiadau pwyllgorau arbenigol, barnau ac/neu brofiad clinigol awdurdodau mawr eu bri

4.30 Byddem angen i Gofrestrau Achrededig arddangos y gronfa dystiolaeth ar gyfer galwedigaethau cofrestredig, ac i'n cynghori ar unrhyw newidiadau trwy'r asesiad o adnewyddu. Efallai y byddwn hefyd yn sefydlu Grŵp Cynghori allanol i wneud argymhellion ar benderfyniadau.

## Opsiwn 3 – Dirprwyon allanol

4.31 Dan yr opsiwn hwn, byddem yn ceisio defnyddio penderfyniadau allanol ar effeithiolrwydd triniaethau fel sail ar gyfer beth sydd wedi ei gynnwys o fewn cwmpas y rhaglen. Rhai enghreifftiau o sut y gallem gyflawni hyn yw:

- Alinio gyda'r GIG a fframweithiau comisiynu gofal cymdeithasol
- Cyfeirio at arbenigedd allanol, megis NICE a chyfatebol ar gyfer Cymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

4.32 Byddai angen i'r dull hwn gydnabod y gall cyngor ar alwedigaethau a thriniaethau unigol amrywio'n arwyddocaol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae yna wahaniaethau o ran pa driniaethau sydd ar gael i gleifion yn ddibynnol y wlad, a'r rhanbarth o fewn Lloegr. Er enghraifft, mae nifer o driniaethau nad ydynt ar gael yn gyffredinol trwy'r GIG, fel homeopathi, yn gyfreithiol.

*Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod ystyried tystiolaeth effeithiolrwydd galwedigaethau i ystyriaeth yn ei benderfyniadau achredu, ac os felly, beth yw'r ffordd orau i gyflawni hyn?*

### *Model ariannu*

- 4.33 Ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod yn codi ffi sylfaenol o tua £13,800 ar gyfer ceisiadau am achrediad. Mae'n codi ffi sylfaenol o tua £10,500 plws 10c ar gyfer pob cofrestrydd ar gyfer adnewyddiadau blynyddol. Mae hyn yn golygu bod yr holl Gofrestrau Achrededig, beth bynnag eu maint ac yn amrywio yn y cronfeydd cyfredol o gofrestryddion o 100 i 34,000 yn talu swm tebyg iawn i'w gilydd. Mae'r ffioedd a godwn yn mynd tuag at ein costau gweithredu, ond nid yw'n ddigon i'w talu'n llwyr.
- 4.34 Rydym yn gweld tuedd gynyddol i gofrestrau uno neu ymuno â chofrestr gyfredol. Credwn fod hyn yn ddatblygiad positif, ond dan y model ffioedd cyfredol mae'n lleihau ein hincwm. Nid yw'r model cyfredol yn caniatáu ar gyfer yr amrywiaeth ym maint y Cofrestrau Achrededig o ran aelodaeth, neu gymhlethdod o ran y nifer o alwedigaethau sydd wedi cofrestru.
- 4.35 I sicrhau hyfywedd ariannol y rhaglen yn y dyfodol, rydym yn cynnig newid ein model ariannu i un o ffi i bob cofrestrydd, yn unol â'r ffioedd a delir i ni gan y rheolyddion statudol. Gan dybio'r nifer gyfredol o gyfanswm ymarferwyr, ac y bydd ein costau gweithredu ar yr un lefel ag y maent ar hyn o bryd, byddai'r gost fesul cofrestrydd yn tua £6 y flwyddyn.

*Cwestiwn 6: A ydych chi'n credu fod newid y model ariannu i fi 'fesul cofrestrydd' yn rhesymol? A oes unrhyw fodolau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?*

### **Cynigion i'r dyfodol**

- 4.36 Ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw ar gyfer system fwy syml i gleifion, y cyhoedd a chyflogwyr ei llywio. Dylai trosolwg fod yn gymesur i risg galwedigaethau.
- 4.37 Mae ein cynigion ar gyfer y dyfodol wedi eu hanelu at gyflawni:
- Y gallu i ddarparu trosolwg ar gyfer y rolau newydd ac sy'n ehangu nad ydynt wedi eu rheoleiddio a nodwyd fel blaenoriaethau gweithlu.
  - Mwy o gysondeb o ran rheoli mynediad i gofrestrau mewn galwedigaeth yn cynnwys safonau addysg a hyfforddiant cyson.
  - Y gallu i eithrio ymarferwyr anaddas o alwedigaethau risg uchel
  - Amlinellir crynodeb o'r prif newidiadau a gynigir ar gyfer y dyfodol isod.

### *Haeniad galwedigaethau yn ôl risg*

- 4.38 Mae yna amrywiaeth arwyddocaol yn y risg i'r cyhoedd o'r gwahanol alwedigaethau sydd wedi eu cynnwys o fewn cwmpas cyfredol y rhaglen. Golyga dull 'un maint addas i bawb' bod yr un sicrwydd yn weithredol ar gyfer galwedigaethau mwy ymwthiol.
- 4.39 Rydym yn cynnig datblygu meini prawf ar gyfer gwahanol 'haenau' o alwedigaethau mewn rheoleiddio anstatudol, yn ôl y risg i gleifion a'r cyhoedd, fel cam cyntaf tuag at system fwy cydlynol. Gallai hyn gynnwys meini prawf ar gyfer nodi pan ddylai galwedigaeth fynd trwy asesiad trylwyr o a yw'n cyflwyno digon o risg i gyfiawnhau argymhelliad i'r Llywodraeth ar gyfer ystyried rheoleiddio statudol.

4.40 Byddai cyflwyno mwy o haeniad risg fel hyn yn ein galluogi i nodi pa alwedigaethau a ddylid eu blaenoriaethu ar gyfer gwell mecanweithiau sicrwydd, fel trwyddedu a chysondeb safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant.

#### *Cysondeb safonau addysg a hyfforddiant*

4.41 Roedd yr egwyddorion dylunio gwreiddiol ar gyfer y rhaglen yn cynnwys 'ni ddylai osod y gofynion addysg a hyfforddiant ar gyfer mynediad i gofrestr.' Fodd bynnag, yn aml mae addysg a hyfforddiant yn fecanweithiau allweddol a ddefnyddir gan gyrrff cofrestru i bennu cymhwyster cofrestryddion posibl. Golyga gwahanol ddulliau ar draws y cyrrff hyn nad oes trothwy cyffredin ar gyfer cymhwyster, hyd yn oed o fewn yr un alwedigaeth. Mae hefyd yn golygu y gall sgiliau a gwybodaeth ymarferwyr yn yr un alwedigaeth amrywio'n arwyddocaol yn ddibynnol ar gyda pa gorff maent wedi cofrestru. Gall hyn arwain at ddiffyg eglurder ar gyfer cleifion a defnyddwyr gwasanaeth.

4.42 Dengys datblygiad safonau cyffredin o fewn y GIG ar gyfer rhai rolau anstatudol, a rhwng rhai o'r Cofrestrau Achrededig cyfredol, y gwerthfawrogir cysondeb mewn addysg a hyfforddiant. Mae'n darparu eglurder a sicrwydd ar gyfer cyflogwyr ac yn caniatáu i ymarferwyr drosi rhwng swyddi a lleoliadau. Mae yna hefyd risg y gallai gofyn am safon gyffredin lesteirio arloesi a lleihau dewis i gleifion. Gellid lliniaru hyn trwy gael pwyntiau mynediad clir i'r alwedigaeth wedi ei alinio i lwybr gyrfa.

4.43 Gallwn weld manteision mwy o gysondeb ac y gallai'r Awdurdod chwarae mwy o rôl wrth helpu llunio safonau. Er na fydd yr Awdurdod yn y safle gorau i osod safonau penodol ar gyfer galwedigaeth, rydym eisiau gweithio gyda Chofrestrau Achrededig a rhanddeiliaid eraill tuag at y nod hon. Byddem yn dechrau gyda galwedigaethau ble mae safonau addysg a hyfforddiant cyffredin eisoes yn nod ddatganedig, naill ai gan y proffesiwn ei hun neu yn rhan o strategaethau gweithlu'r GIG. Gan weithio gydag eraill, byddem yn ceisio cefnogi datblygiad ac yna ardystio fframweithiau cyffredin, gan eu mabwysiadu i'n Safonau ar gyfer Cofrestrau Achrededig.

4.44 Byddai hyn yn newid mawr ar gyfer cyrrff cofrestru a'u hymarferwyr ond mae'n un y credwn sydd ei angen i hyrwyddo buddiannau cleifion a defnyddwyr gwasanaeth trwy greu system fwy eglur i'w llywio ac i sicrhau mwy o gysondeb o ran cymhwyster a diogelwch ymarferwyr. Byddai hefyd yn arwain y ffordd ar gyfer symleiddio'r system, o bosibl gyda llai o sefydliadau yn cael eu hachredu gan yr Awdurdod.


#### *Llunio symlrwydd o fewn y system*

4.45 Byddai safonau cyffredin ar gyfer addysg a hyfforddiant i alwedigaethau unigol yn caniatáu ar gyfer cyflwyno fframweithiau cyffredin. Yn ei dro, byddai hyn yn galluogi cofrestrau i ymuno fel endidau unigol, ac i weithredu fel cofrestrau 'mantell'. Byddai hyn yn cyflawni mwy o symlrwydd, a gofynion mwy eglur a ddylai roi mwy o hyder i gyflogwyr a helpu diogelu cleifion a'r cyhoedd wrth ddewis y gwasanaethau hyn.

4.46 Yn y pen draw, gallai hyn arwain at greu cofrestr unigol ar gyfer rolau anstatudol, fel y rhagwelwyd yn Re-thinking Regulation. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai hyn yn newid arwyddocaol ac y gallai alw am newid deddfwriaethol i'w gyflawni. Oherwydd hyn, rydym yn cynllunio dull cam wrth gam i'n cynigion, mewn partneriaeth â'r Llywodraeth, y GIG, gofal cymdeithasol a'r sector annibynnol, ac

yn unol â'n hegwyddorion Cyffyrddiad Cywir ein hunain, i wneud newidiadau sy'n gymesur ac angenrheidiol i ddelio â'r risgiau yn unig.

4.47 Mae'r diagram isod yn sefydlu'r camau allweddol yn y dull hwn.



Stage 1	Cam 1
Multiple registers – clearer eligibility criteria	Cofrestrau lluosog – meini prawf cymhwyster cliriach
Stage 2	Cam 2
Single frameworks for occupations	Fframweithiau sengl ar gyfer galwedigaethau
Stage 3	Cam 3
Simpler system – ‘umbrella’ bodies	System symlach – cyrff ‘mantell’

*Cwestiwn 7: Ydych chi'n credu y byddai ein cynigion ar gyfer gweledigaeth i'r dyfodol yn caniatáu gwell defnydd a chydnyddiaeth o'n rhaglen gan gleifion, y cyhoedd a chyflogwyr? A oes unrhyw newidiadau pellach yr hoffech chi i ni eu hystyried?*

### Diogelu ac amddiffyn y cyhoedd

4.48 Gyfochr i'r newidiadau ar gyfer 2021/22 a'r tymor hirach, byddwn yn dal i archwilio cyfleoedd ar gyfer gwella mynediad at wiriadau diogelu i Gofrestrau Achrededig.

4.49 Datganodd Papur Gorchymyn 2011 blaenorol y Llywodraeth *Enabling Excellence* 'Byddwn hefyd yn sicrhau bod unrhyw systemau cofrestru gwirfoddol a achredir gan [yr Awdurdod] yn creu cysylltiadau priodol i'r system reoleiddio ehangach ac yn cynnwys polisiâu priodol ar indemnio proffesiynol a diogelu, yn cynnwys, ble fo'n briodol, gweithdrefnau ar gyfer atgyfeirio i'r Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) neu Disclosure Scotland, ble ystyrir unigolion i fod yn ris gi'r cyhoedd.'

4.50 Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r Cofrestrau Achrededig wedi eu cynnwys yn llawn mewn deddfwriaeth diogelu. Er enghraifft, ni allant gael mynediad at wybodaeth am os oes gan unigolyn unrhyw gollfarnau darfodedig perthnasol, e.e. ar gyfer trais neu gamymddygiad rhywiol, wrth wneud penderfyniadau ynghylch a ddylid caniatáu i unigolyn ymuno â'r gofrestr sy'n ei gwneud yn anoddach iddynt sicrhau nad yw eu cofrestryddion yn cyflwyno risg i'r cyhoedd.

4.51 Mae'r Awdurdod wedi galw am newid Deddf Ailsefydlu Troseddwy'r 1976 yn ogystal â'r Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 i alluogi cofrestrau a achredir dan y rhaglen i gael eu rhestru fel 'deiliaid cofrestr' ac felly i gael mynediad at yr wybodaeth berthnasol i gynorthwyo wrth wneud penderfyniadau ar ganiatáu i unigolyn ymuno â'r gofrestr. Mae'r ddeddfwriaeth yn gyfrifoldeb i adrannau llywodraeth lluosog, gan gynnwys y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

- 4.52 Mae ein trafodaethau gyda'r Llywodraeth hyd yma wedi dynodi er mwyn symud ymlaen, rhaid cael eglurder ar statws ymarferwyr Cofrestr Achrededig. Byddai hyn yn gofyn am ymestyn y diffiniad cyfreithiol o 'ofal iechyd' i'r rhai sydd wedi eu cynnwys o fewn cwmpas y rhaglen.
- 4.53 Mae pandemig Covid-19 wedi amlygu ymhellach y diffyg eglurder ynghylch dosbarthiad cyfreithiol ymarferwyr Cofrestrau Achrededig. Nid oedd canllawiau a rheoliadau Covid-19 ar draws y Deyrnas Unedig yn cyfeirio'n benodol at Gofrestrau Achrededig. Yn gyffredinol fe ddisgrifiwyd y grŵp fel darparu gwasanaethau 'cyswllt agos' a 'gofal personol'. Ar adegau, roedd hyn yn peri dryswch ynghylch a allai gweithgareddau a gyflawnir am resymau iechyd, fel tylino chwaraeon, ddigwydd.
- 4.54 Golyga diffyg eglurder ar statws ymarferwyr, a diffyg mynediad at wybodaeth diogelu, y gallai cleifion a'r cyhoedd fod dan risg. O ystyried pwysigrwydd y gwasanaethau iechyd meddwl ac eraill a ddarperir gan rolau anstatudol, byddai mwy o sicrwydd ynghylch ymarferwyr yn eu galluogi i wneud mwy o gyfraniad i brinderau gweithlu.
- 4.55 Rydym yn cynnig y dylai'r Awdurdod archwilio, gyda chefnogaeth yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sut i gyflawni mwy o eglurder ar statws ymarferwyr Cofrestrau Achrededig. Rydym yn cydnabod y gall yr amrywiaeth o alwedigaethau sydd wedi eu cwmpasu yn y rhaglen Cofrestrau Achrededig yn gallu cyflwyno her i'w dosbarthu fel grŵp homogenaidd i ddibenion cyfreithiol. Os yw hyn yn parhau i fod y rhwystr allweddol, byddwn yn archwilio a ddylai galwedigaethau penodol sy'n cyflwyno risg uwch gael eu dynodi fel haen ar wahân. Byddwn yn eirioli ar gyfer y newidiadau deddfwriaethol sy'n ofynnol i gydnabod y grŵp hwn.

*Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno er mwyn diogelu'r cyhoedd, y dylai'r Cofrestrau Achrededig gael mynediad i wybodaeth ynghylch collfarnau darfodedig perthnasol?*

### **Asesiad o effaith y cynigion**

- 4.56 Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn deall unrhyw effaith neu faich mae ein cynigion yn debygol o greu er mwyn i ni allu ystyried unrhyw newidiadau priodol.
- 4.57 Mae effeithiau posibl a nodwyd gennym hyd yma yn cynnwys:
- Mwy o sicrwydd mewn meysydd ble mae angen cleifion fwyaf, trwy fwy o aliniad i ofynion y GIG. Gallai hyn gael effaith fuddiol ar grwpiau difreintiedig. Addasiadau i'r rhaglen fel ei bod yn fwy ymarferol o fewn ymagweddau sy'n canolbwyntio ar unigolion, ac felly a allai gael effaith positif ar grwpiau difreintiedig trwy gyfrannu ar wella llythrennedd iechyd.
  - Lleihau sicrwydd galwedigaethau neu gofrestrau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf diwygiedig neu Safon 6. Gallai hyn arwain at leihau safonau ymarfer ar gyfer rhai cofrestrau, ac felly hefyd cleifion a'r cyhoedd sy'n parhau i ddewis eu gwasanaethau. Fodd bynnag, mae hyn yn debygol o fod yn oblygiad anuniongyrchol o newidiadau i'r rhaglen gan fod ein hymchwil ein hunain yn dangos mai argymhellion gan deulu a ffrindiau, yn hytrach nag achrediad, sy'n ysgogi dewis cleifion ar hyn o bryd.
  - Effaith andwyol ar gofrestryddion ble nad yw eu cofrestrau yn bodloni'r meini prawf newydd oherwydd cyflwyno hierarchaeth ymarfer gliriach. Gallai hyn arwain at golli incwm ac/neu ragolygon gyrfa. Gallai hyn effeithio'n anghymesur ar rai grwpiau sy'n ymarfer neu'n ceisio triniaeth o'r



gweithgareddau hyn. Byddwn yn ceisio gwella ein dealltwriaeth o nodweddion y grŵp hwn yn ystod yr ymgynghoriad ac ymchwil desg.

- Gallai arfer mwy o reolaeth trwy feini prawf achredu ac/neu'r Safonau helpu lleihau'r risg o niwed i gleifion a'r cyhoedd ble mae yna fwy o ymwybyddiaeth o achredu, trwy wahaniaeth cliriach o ddisgwyliadau o gofrestrau achrededig, a heb eu hachredu.
- Potensial i ffioedd gael eu pasio ymlaen i gofrestryddion, fodd bynnag, gan y rhagwelir y bydd hyn yn tua £6 y flwyddyn, credwn ei fod yn debygol o fod yn fforddiadwy i'r mwyafrif helaeth. Byddwn yn ystyried dull cam wrth gam i'w gyflwyno.

4.58 Credwn y gellir cyflawni asesiad mwy cywir o effaith unrhyw newid unwaith y bydd prosesau gweithredol diwygiedig wedi eu datblygu, ond yn dal yn ystyrion o effaith bosibl unrhyw newidiadau y byddwn yn eu harchwilio trwy gydol y broses adolygu hon. Rydym yn gofyn am farnau'r rhai a effeithir, ac yn benodol y Cofrestrau Achrededig a chleifion a defnyddwyr gwasanaeth, o effaith debygol y newidiadau i'r broses a amlinellwyd yma.

4.59 Yn ystod pob cam o'n hadolygiad, byddwn yn ystyried a oes goblygiadau cydraddoldeb arwyddocaol, naill ai'n bositif neu'n negyddol, ar gyfer ein rhanddeiliaid. Nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau cydraddoldeb neu amrywiaeth negyddol arwyddocaol o'n cynigion a disgwyliwn y bydd budd positif i gleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd o'r newidiadau arfaethedig.

4.60 Fodd bynnag, byddem yn croesawu unrhyw adborth i sicrhau'n bod yn ystyried yr holl faterion perthnasol. Byddem yn croesawu unrhyw sylwadau ynghylch effaith y cynigion hyn.

*Cwestiwn 9: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion gyda nodweddion sydd wedi eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?:*

- Oedran
- Ailbennu rhywedd
- Ethnigrwydd
- Anabledd
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Arall (nodwch)

4.61 Os rhoesoch ateb cadarnhaol i unrhyw un o'r uchod, esboniwch pam a beth ellid gwneud i newid hyn.

4.62 I'n helpu i ddeall pwy sydd â diddordeb yn y rhaglen ac sy'n ymateb i'n hymgynghoriad, byddai'n ddefnyddiol i wybod mwy amdanoch chi. Pe byddai'n well gennych chi beidio ychwanegu eich enw, gallech roi gwybod i ni, er enghraifft, eich maes gwaith neu ddiddordeb neu'r math o sefydliad rydych chi'n gweithio iddo (er enghraifft, 'Dwi'n gweithio i gofrestr achrededig' neu 'Dwi'n gweithio gyda chofrestr achrededig'):

*Cwestiwn 10. Eich enw ac/neu enw eich sefydliad.*



*Cwestiwn 11: Sut fydddech chi'n disgrifio'ch sefydliad (neu'ch rôl eich hun os yn fwy perthnasol)?*

## 5. Crynodeb o gwestiynau a sut i ymateb

### Crynodeb o gwestiynau

Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno y gallai system o gofrestru gwirfoddol ar gyfer ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol fod yn effeithiol o ran diogelu'r cyhoedd?

Cwestiwn 2: Sut ydych chi'n meddwl dylai'r Awdurdod bennu pa alwedigaethau a ddylid eu cynnwys o fewn cwmpas y rhaglen? Oes yna unrhyw beth arall yr hoffech i ni ei ystyried parthed asesu ceisiadau ar gyfer cofrestrau newydd?

Cwestiwn 3: Ydych chi'n meddwl y bydd symud o gylch blynyddol i un hirach o adnewyddu achrediad, yn gymesur i'r risg, yn galluogi'r Awdurdod i ddilyn ymagwedd dargedig, cymesur a hyblyg i'r asesiad? Ydych chi'n meddwl bod ein cynigion ar gyfer cofrestrau newydd o ran isafswm gofynion yn rhesymol?

Cwestiwn 4: Ydych chi'n meddwl bod achrediad wedi ei ddehongli fel rhywbeth sy'n ymhygu ardystiad o'r galwedigaethau mae'n eu cofrestru? A yw hyn yn creu problemau? Os felly, sut ellir lliniaru hyn ar gyfer y dyfodol?

Cwestiwn 5: Ydych chi'n credu y dylai'r Awdurdod ystyried tystiolaeth effeithiolrwydd galwedigaethau i ystyriaeth yn ei benderfyniadau achredu, ac os felly, beth yw'r ffordd orau i gyflawni hyn?

Cwestiwn 6: A ydych chi'n credu fod newid y model ariannu i fi 'fesul cofrestrydd' yn rhesymol? A oes unrhyw fodolau eraill yr hoffech chi i ni eu hystyried?

Cwestiwn 7: Ydych chi'n credu y byddai ein cynigion ar gyfer gweledigaeth i'r dyfodol yn cyflawni gwell defnydd a chydabyddiaeth o'n rhaglen gan gleifion, y cyhoedd a chyflogwyr? A oes unrhyw newidiadau pellach yr hoffech chi i ni eu hystyried?

Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno er mwyn diogelu'r cyhoedd, y dylai'r Cofrestrau Achrededig gael mynediad i wybodaeth ynghylch collfarnau darfodedig perthnasol?

Cwestiwn 9: A oes unrhyw agweddau o'r cynigion hyn y teimlwch allai arwain at driniaeth wahaniaethol, neu effaith ar, grwpiau neu unigolion gyda nodweddion sydd wedi eu diogelu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

### Sut i ymateb

5.1 Gallwch ymateb i'r papur ymgynghori hwn trwy gwblhau'r ddogfen Word sydd ar gael yma a'i chyflwyno trwy e-bost at:  
[ARconsultation@professionalstandards.org.uk](mailto:ARconsultation@professionalstandards.org.uk).

5.2 Oherwydd y pandemig, rydym yn annog anfon ymatebion trwy e-bost. Os nad yw hyn yn bosibl, ein cyfeiriad post yw:

Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (Professional Standards Authority)  
157-197 Buckingham Palace Road  
Llundain (London)  
SW1W 9SP

- 5.3 Os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os ydych chi angen fersiwn hygyrch o'r ddogfen hon, cysylltwch â ni ar 020 7389 8030 neu trwy e-bost at [accreditationteam@professionalstandards.org.uk](mailto:accreditationteam@professionalstandards.org.uk).
- 5.4 Dychwelwch eich ymateb atom erbyn **28 Chwefror 2021**.

## 6. Cyfrinachedd gwybodaeth

- 6.1 Byddwn yn rheoli'r wybodaeth a ddarparwch mewn ymateb i'r papur trafod hwn yn unol â'n polisiau diogelwch gwybodaeth sydd ar gael ar ein gwefan ([www.professionalstandards.org.uk](http://www.professionalstandards.org.uk)).
- 6.2 Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a dderbyniwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a'r Ddeddf Diogelu Data 1998 a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004).
- 6.3 Os ydych am i'r wybodaeth a roddwch gael ei thrin yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol, dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, bod Cod Ymarfer statudol yn bodoli y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio â rhwymedigaethau cyfrinachedd, ymysg pethau eraill. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried fod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol.
- 6.4 Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Awdurdod.
- 6.5 Byddwn yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a gan amlaf bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydydd partïon.

## 7. Ein proses ymgynghori ac adborth

- 7.1 Mae ein proses ymgynghori yn seiliedig ar egwyddorion presennol Swyddfa'r Cabinet ar ymgynghori cyhoeddus, 'Consultation principles: guidance'. Wrth gyflawni ymgynghoriadau cyhoeddus ar agweddau o waith yr Awdurdod, rydym yn ceisio:
- Bod yn glir o ran y broses ymgynghori a'r hyn sy'n cael ei gynnig. Mae hyn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddylanwadu ar ein syniadaeth ac ystyried manteision ac anfanteision ein cynigion
  - Ymgynghori'n ffurfiol pan fydd cwrpas i ddylanwadu ar y polisi fel bod diben i'r ymgynghoriadau

- Roi digon o wybodaeth i sicrhau bod y rhai yr ymgynghorir â nhw yn deall y materion ac yn gallu darparu ymatebion gwybodus. Rydym yn cynnwys asesiadau o gostau a buddion a'r opsiynau a ystyriwyd
- Ceisio barn gyfunol cyn cyhoeddi ymgynghoriad ysgrifenedig, yn arbennig wrth ymgynghori ar gynigion newydd
- Ymgynghori am gyfnod cymesur o amser, gan gasglu barnau ar natur ac effeithiau'r cynigion. Byddai ymgynghori am gyfnod rhy hir yn oedi datblygiad polisi ac nid yw ymgynghori'n rhy gyflym yn rhoi digon o amser ar gyfer ystyriaeth a bydd yn lleihau safon yr ymatebion
- Sicrhau bod ein hymgyngoriad yn dargedig i ystyried yr ystod lawn o randdeiliad, cyrff ac unigolion a effeithir gan y polisi a chynnwys grwpiau cynrychiadol perthnasol. Ystyried targedu grwpiau penodol os oes angen.
- Ystyried ymgynghori i fod yn broses barhaus, nid dogfennau ac ymatebion ffurfiol yn unig.
- Dadansoddi ymatebion yn ofalus ac esbonio'r ymatebion a dderbyniwyd a sut maent wedi hysbysu'r polisi. Rhoi adborth clir i'r rhai sy'n cymryd rhan yn dilyn yr ymgynghoriad. Cyhoeddi ymatebion i'r ymgynghoriad o fewn 12 wythnos neu esbonio pam nad yw hynny'n bosibl
- Caniatáu amser priodol rhwng cau'r ymgynghoriad a gweithredu'r polisi.

7.2 Os oes gennych bryderon neu sylwadau yn ymwneud yn benodol â'r broses ymgynghori ei hun, cysylltwch â ni:

Christine Braithwaite  
 Cyfarwyddwr Safonau a Pholisi (Director of Standards and Policy)  
 Yr Awdurdod Safonau Proffesiynol (Professional Standards Authority)  
 157-197 Buckingham Palace Road  
 Llundain (London) SW1W 9SP  
 Ffôn: 020 7389 8030  
 Ffacs: 020 7389 8040

[christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk](mailto:christine.braithwaite@professionalstandards.org.uk)